# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 4 Chwefror 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, D.M. Cundy (yn lle P.M. Edwards), I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas a J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
R. Davies, Swyddog Rheoli Datblygu [De]
G. Glenister, Swyddog Rheoli Datblygu
Z.M. James, Swyddog Rheoli Datblygu [y De]
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Corner, Swyddog Technegol
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb  - 11.30 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd P. Edwards.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Joseph Davies | 3. PL/00778 - Addasiadau ac estyniad i'r llawr cyntaf / to yn Sŵn y Gân, Llangadog, SA19 9HP [cafodd yr eitem ei thynnu'n ôl] | Ymgeisydd yn berthynas. |

## 3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod yr eitem hon wedi cael ei thynnu'n ôl, hyd nes y ceir adolygiad o'r dogfennau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a lefelau ffosffad yr oedd angen eglurhad pellach arnynt ar lefel genedlaethol i bob awdurdod lleol.

## 4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod yr eitem hon wedi cael ei thynnu'n ôl, hyd nes y ceir adolygiad o'r dogfennau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a lefelau ffosffad yr oedd angen eglurhad pellach arnynt ar lefel genedlaethol i bob awdurdod lleol.

## 5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod yr eitem hon wedi cael ei thynnu'n ôl, hyd nes y ceir adolygiad o'r dogfennau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a lefelau ffosffad yr oedd angen eglurhad pellach arnynt ar lefel genedlaethol i bob awdurdod lleol.

## 6. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7FED IONAWR, 2021

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2021 yn gofnod cywir.**

## 7. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 16 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 8. GWRTHOD CANIATÂD CYNLLUNIO CYFEIRNOD S/21597

[**Noder:** Roedd y Cynghorwyr I.W Davies, C. Jones a G.B Thomas wedi gadael y cyfarfod wrth ystyried yr eitem hon gan nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 1 Hydref, 2019 a 14 Tachwedd, 2019 pan ystyriwyd y cais. Fel aelod dirprwyol o'r pwyllgor, gadawodd y Cynghorydd D. Cundy y cyfarfod hefyd yn ystod ystyriaeth o'r eitem hon.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar yr apêl yn erbyn gwrthod caniatâd cynllunio, Cyfeirnod S/21597 cofnod penderfyniadau dyddiedig 14 Tachwedd 2019. Nododd y Pwyllgor fod 8 rheswm polisi dros wrthod y cais (4 ar sail sylweddol).

Dywedodd y swyddogion eu bod wedi bod yn paratoi achos y Cyngor i amddiffyn yr apêl a rhannwyd y cyngor a ddarparwyd gan y Cwnsler.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod swyddogion cynllunio yn hysbysu'r Apelydd bod yr Awdurdod yn bwriadu amddiffyn yr Apêl fel y nodir yn yr adroddiad.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council